

Eisteddfod Penrhyn-coch 2018

Cystadleuaeth Rhif 7: Erthygl addas i bapur bro.

Daeth pedair erthygl i law ac maent i gyd yn haeddu gweld golau dydd mewn papur bro.

Erthygl am amaethyddiaeth a gafwyd gan ARWYN ac mae hi'n gri o'r galon am yr amodau anodd sydd yn wynebu ac sydd wedi wynebu ffermwyr dros y blynyddoedd. Mewn Cymraeg naturiol, croyw, mae'n rhestrïr holl anhawsterau a wynebodd - clwy'r traed a'r genau, BSE, scrapie, mewnfurion o dramor, y diciâu, moch daear, llwynogod, mewnfudwyr, cerddwyr, gwleidyddion. Mi fuasai'n hawdd i hynny fynd yn flinderus ond mae didwylledd a naturioldeb yr arddull yn atal hynny. Er enghraifft y darn yma tua'r diwedd - 'Rwyf yn byw ar y ffin yn aml. Dwi'n meddwl rhoi'r gorau i ffermio a mynd i wneud rhywbeth arall ond ni fedraf gan mai yn y pridd y mae ngwreiddiau.'

Erthygl am gestyll a chaerau Ceredigion sydd gan GLAN LLYN gan ganolbwyntio ar gaearau gogledd Ceredigion ac ar gestyll Aberteifi ac Aberystwyth. Canolbwyntia ar yr elfennau hanesyddol ac er bod y mwyafrif yn eithaf ffeithiol, tua'r diwedd mae GLAN LLYN yn tynnu manylion ychydig yn fwy personol i'r darn. Yr elfen sy'n ei wneud yn fwy diddorol na darn ffeithiol, sych, yw'r adnabyddiaeth o gyfoeth enwau llefydd a hanesion bach diddorol am y llefydd gwahanol.

Mae hi rhwng BRITHYLL Y MÔR a GWION am y wobr gyntaf. Mae'r ddau yn ddarnau gwahanol iawn. Mae darn BRITHYLL Y MÔR am Lyn Craigyppistyll yn debycach o ran hyd i erthygl bapur bro yn yr ystyr ei bod ychydig yn fyrrach, ac yn ceisio arwain y darlennydd o gwmpas y llyn. Mae'r darn yma yn fwy ffeithiol, yn rhoi hanes datblygiad y llyn a'i gyswllt gyda'r diwydiant mwyngloddio a darparu dŵr i Aberystwyth. Mae'n ddiddorol, cryno, yn dal diddordeb y darlennydd a byddai'n barod i'w chyhoeddi mewn papur bro fel y mae.

Darn ychydig hwy a gafwyd gan GWION, yn canolbwyntio ar Gors Fochno. Mae'n rhoi darlun cyflawn o natur ffisegol y gors, ei daearyddiaeth, ei ecoleg, ei arwyddocâd mewn chwedloniaeth a llen gwerin a'r ffyrdd yr oedd pobl yn arfer ei defnyddio. Yn hynny o beth, er ei bod ychydig yn hir mae ychydig yn gyfoethocach nag erthygl BRITHYLL Y MÔR. Mae'r manylion a'r hanesion bach wedi eu gwau i stori'r gors yn ei chodi i'r brig.